



Alun Williams, aeron cwlwm y coed Trefnant, Tachwedd 11eg, 2015

Cwlwm y coed, Gwinwydden Ddu, Afal Adda, Coed Rwym, Coedgwlm, Cwlwm y Gwydd, Eirin Gwion, Erfinen Fair, Erfinen y Coed, Grawn y Perthi, Gwion y Perthi, Maip Adda, Meipen Fair, Paderau'r Gath, Rhwymyn y Coed, Rhwymyn y Gwydd, Taglys, *Tamus communis*, black bryony

Planhigion Blodeuol; Conwydd a Rhedyn. CELI 2003

GMS - y deng mlynedd cyntaf

Daeth adroddiad 10-mlynedd Arolwg Gwyfynod y Gerddi (GMS 2003-13) i'r fei yn ddiweddar. Holwch am gopi trwy Llên Natur. Amlygodd y gwaith wythnosol cyson o drapio gwyfynod yn y gerddi ar draws Prydain nifer o gasgliadau annisgwyl. Dyma un ohonynt: Gwyfyn gweddol gyffredin yn y trapiau oedd y llenni




crychlyd. Mae'n hysbys bod dwy genhedlaeth i'r gwyfyn hwn pob blwyddyn, ond yr hyn nad oedd yn hysbys ynghynt oedd i berthynas pendant ymddangos rhwng niferoedd mwy o lenni crychlyd a niferoedd mwy o ffyrch arian, mewnfudwr o dde Ewrop.

Mae'r casgliad hwn yn seiliedig wrth gwrs ar ganlyniadau degau

o wyfynwyr ar draws Prydain. Tybed a yw'r dystiolaeth o un gardd yn Waunfawr dros ugain mlynedd yn cefnogi'r casgliad hwn. Dyma fy nghofnodion i (DB) o nifer o safleoedd yng Nghymru dros y cyfnod hwnnw (graiff). Gwelwn yn syth y ddwy genhedlaeth (efallai tair?), un

LLENNI CRYCHLYD 1996-2015 POB SAFLE CYMREIG



bychan o gwmpas wythnos 26 (canol Mehefin), ac un arall llawer mwy o gwmpas wythnos 38-39 (canol mis Medi). Mae'r gwaith GMS yn peri i rhywun feddwl bod yr ail genedlaeth, oherwydd ei faint, yn cael ei atgyfnerthu gan fewnfudwyr o'r cyfandir. A'r oblygiadau? Niferoedd mwy nag arfer yn yr haf o lenni crychlyd yn awgrymu mewnlifiad - bydded felly yn effro i rywogaethau deithr eraill yn y cyffiniau. **Duncan Brown**

Dathlu penblwydd Gwarchodfa Natur Genedlaethol Niwbwrch yn 60

Neuadd Pritchard Jones, Niwbwrch
Drysau'n agor am 7.15pm: bydd pob sgwrs yn para tua awr, £1 y pen. Y mis hwn:

Rhagfyr 1 Cestyll a Llysoedd y 13eg yng Nghymru - perspectif diwylliannol ac economaidd Neil Johnstone, Archeolegydd, Menter Môn


Rhagfyr 15 Gwirioni ar chwilod! Dr R Loxton, Entomologydd (yn Saesneg)

Trawsgoed ar y brig

Roedd dau ddiwrnod cyntaf Tachwedd yn curo pob record Prydeinig gyda Trawsgoed, Aberystwyth ar flaen y gad. Dyma ein dyn tywydd yn dweud:

Trawsgoed did it again! Max temp at Trawsgoed was 22.3C on 2 Nov. For 2 days running it's beaten the previous all time Nov high temp. Seems the remarkable record temp of 22.4C at Trawsgoed (8mils east of Aberystwyth) was owing to a low-level inversion. The inversion boundary between cold air beneath and warm overlying air (in the case of Nov 1st & again today [2 Tach] that overlying warm air is the southerly flow that is coming up from Iberia & the Mediterranean at present) is not static. It can rise and fall, owing to the warming or cooling of the underlying cold air, allowing the warm overlying air to sink or rise. Yesterday the inversion boundary fell almost to sea level allowing the warm air to be at ground level, heated up further by the all day sunshine, see temp graph for Trawsgoed

Chwilen gladdu... megis seren wib!



(*Necrophorus humator* neu *vespilloides*), Tudweiliog. Tua amser cinio dydd Mercher dwyth 14/10/2015 y gwelais i'r chwilen yn cerdded i fyny wal y tŷ.

Roedd Nanw, ein ci defaid Cymreig, wrth dennyn wrth y drws cefn ac yn cweithi y mo mwya. Dyma ollwng Nanw i geisio gweld be oedd yn ei phoeni a hithau'n

rhedeg at ymyl y chwilen ac yn cweithi fel tasa na anghenfil anferth yno. Oherwydd ei bod yn creu y fath styrbans mi symudwyd y chwilen a'i rhoi ar silff y ffenest a phan edrychon ni wedyn ymhen rhyw awr roedd hi wedi diflannu.

Gwenan Roberts

Enghraifft arall yma gan Alisa

Gwesti a sangral

Cofnod difyr gan DO Jones, Padog:

3 Awst 1956 Gosod gwesti yn yr afon, rhoi sangral yn yr ardd.

Gosod ystyllen ar y siderake. Gwlyb iawn, manlaw, gwllithog.

Yn ol Gwawr Angharad, merch DO: Gwesti (genwair - hynny ydi) yw gosod y wialen pysgota a'i adael yno. Sangral - gwrtait h blodau ayb.

Y mae'r gair gwestan/gwesti yn cael, neu o leiaf, roedd ar lafar gwlad yn ardaloedd 'Stiniog, Dolwyddelan Maentwrog a Thrawsfynydd. Y mae cyfeiriad ato ar dudalen 25 yn llyfr Emrys Evans - Dal Pysgod.

Steffan ab Owain

Oes mwy o sylwadau ar y ddau air yma?

Cloch sa'draw



Dwi'n gyfarwydd a carreg cadw draw ond dyma'r tro cyntaf i mi weld cloch yn cael ei defnyddio i'r un pwrpas. Dwi wedi cerdded heibio'r gloch ganoedd o weithiau ond heb sylwi arni. Enw y gwneuthurwr yw furnitubesUk, cwmni o Lundain.

Lleoliad : Stryd y Dyffryn, Dinbych. Hydref 12.

Alun Williams

Mae yna garreg sa'draw yng Nghaernarfon hefyd, yng ngwaelod [Stryd Twll yn y Wal](#) (neu Lon Bupur yn wreiddiol) ac [un arall](#) ym Mhorth yr Aur

Emrys Jones

Marciau saer



Tynnais rhain ar distau pren fferm hynafol Bodvyle (Bodfael?) yng nghesail Caer Caradog, Sir Amwythig yn ddiweddar. Rhifau Rhufeinig mae'n debyg, i ddod a dau ben y cymal ynghyd, wrth godi adeilad ffram bren sydd yn y lluniau yma maen debyg. Tybiaf i rifau o'r fath fod yn llawer haws i'w marcio â

chun cyn oes y pensil a llythrennedd cyffredin? Pryd ddaeth oes rhifau o'r fath i ben?

Dyma beth ddywed [Wikipedia](#) am farciau saer: *Carpenters marks is a general term for markings left on the timbers of wooden buildings during construction. Assembly or marriage marks and were used to identify the individual timbers. Assembly marks include numbering to identify the pieces of the frame. The numbering can be similar to Roman numerals except the number four is IIII and nine is VIIII. These marks are chiseled, cut with a race knife (a tool to cut lines and circles in wood), or saw cuts. The numbering can also be in Arabic numerals which are often written with a red grease pencil or crayon. German and French carpenters made some unique marks. (Abbundzeichen (German assembly marks)). ...Occasionally carpenters or owners marked a date and/or their initials in the wood, but not like masons left masons marks.* DB

Trychineb Dolgarrog - 90 mlynedd ymlaen

Adroddiad Golygydd Y Pentan Tach 2015 gyda diolch

Ar yr 2ail o Dachwedd, 1925, ar noson stormus iawn, y digwyddodd y drychineb erchyll yn Nolgarrrog, pan dorrodd argae Llyn Eigiau i fyny yn y mynyddoedd. Dechreuwyd ar y gwaith o godi'r wal i Gronni'r dŵr, oedd yn dri chwarter milltir o hyd a 35 troedfedd o uchder, yn 1911. Cafwyd trafferthion yn syth a gadawodd y contractiwr gwreiddiol gan honni bod y cynllun yn torri corneli. 'Roedd seiliau'r wal yn



annigonol a'r concriid o safon isel gyda llawer llai o sment yn y gymysgedd na'r disgwyl. Gwireddwyd ei ofnau.

O edrych ar y llun, 'doedd dim rhyfedd iddo dorri.



'Doedd dim posib' i wal mor denau ddal grym y dŵr. Collwyd un ar bymtheg o bobl, gan gynnwys chwech

o blant, ac yn fwy anffodus fyth, ni chafwyd hyd i gyrff naw ohonynt.

Dywedir y buasai llawer mwy o fywydau wedi eu colli ar wahân i'r ffaith bod nifer o drigolion y pentref yn y neuadd y noson honno yn gwyllo ffilm a ddangosid gan gwmni teithiol o Landudno.

'Roedd mam Islwyn Williams yn forwyn yn Wern Bwys Fawr bryd hynny ac yn clywed sŵn y ffrwydradau pan oedd y dŵr yn cyrraedd y 'smeltars'. Rhuthrodd y dŵr i lawr y mynydd nes cyrraedd Llyn Coedy. 'Doedd dim gobaith i'r argae yno ddal grym y llif anferthol. Sgubwyd yr argae yma hefyd ... 'Roedd pentref Porthllwyd mewn perygl ofnadwy! Cariwyd creigiau anferth, rhai ohonynt cymaint â thai, gan rym y dŵr. Gwesty Porthllwyd oedd yr adeilad yma bryd hynny. Mae'n anodd credu bod y pibellau mawrion wedi cael eu malu'n ufflon. Golchwyd ymaith nifer o bontydd gan gynnwys yr un yma dros Afon Porthllwyd. Yn dilyn y drychineb pasiwyd deddf yn y Senedd yn 1930— 'Reservoirs (Safety Provisions) i ddiogelu cronfeydd fel Eigiau, ac fe gafodd y ddeddf honno ei huwchraddio ym 1975.

Gareth Pritchard

Porth Neigwl pnawn ma! [11 Tach 2015]



Ar benllanw'r traeth y tynodd Anet Tomos y llun hwn. Mae o'n dangos, neu awgrymu o leiaf, cyfeiriad y cerrynt, drifft y glannau - *long shore drift*. I ddweud y gwir fum i'n cymryd ers blynyddoedd - ers fy nyddiau fel warden ym Morfa Harlech - bod drifft y glannau ym Mae Ceredigion yn llifo o sir Benfro tua'r gogledd, a'r drifft ar hyd arfordir deheuol Pen Llŷn yn llifo o Enlli tua'r dwyrain, gan greu rhyw grochan o waddodion ym Mae Tremadog (a chyfrannu yn ei dro at dwf Morfa Harlech). Efallai nad ydi hi mor syml â hynny wedi'r cwbl! (Mae hwn yn awgrymu rhyw merigorownd o gwmpas y bae cyfan). Rhaid bod yn ofalus wrth gwrs peidio tynnu gormod o gasgliadau o un digwyddiad, ond wedi dweud hynny, ym mha fodd arall allasai fod yr

arwydd o Dyma Aberteifi wedi cyrraedd Porth Neigwl?

DB

Dyma farn yr arbenigwraig Lucy Kay: *I'd think it got washed out from the shore near Cardigan, then carried north. At around Trwyn Cilan the northerly flowing tidal stream splits and part goes east and part goes west if I remember correctly. Is longshore drift in Cardigan bay from south to north? I thought it was other way round, although may vary in different locations. I'd have to check the SMP2 background information. Prevailing winds from the SW would certainly be driving material in a northerly direction, and what ends up where would be a combination of all of this and prevailing weather conditions whilst the board was in the sea (think of the items from America that we get washed up on the shore).*

Llyn Llam Dda Mary Vaughan Jones



Cofnododd y diweddar **Mary Vaughan Jones**, Plas Glanrafon, Waunfawr ar y pryd, (y naturiaethwraig adnabyddus yn yr ardal), iddi weld rhegen ddwr - "water rail" yn "Llyn Llam Dda" ym mis Gorffennaf 1941. Soniais am hyn wrth Arthur Davies, perchen presennol Plas Glanrafon ac yn adarydd yn ei hawl ei hun. Dywedodd mai fel Llyn Llam Fawr mae o yn adnabod y llecyn, neu yn amlach, yn ôl plant Y Bontnewydd gerllaw sydd yn mynd yno i ymdrochi yn yr haf, Llyn Tchaen. O edrych ar y pwll a ffurfir gan gulfan y "llam", nid cynefin amlwg i regen ddwr mohono, er fod digon o gynefin addas ar y fferm lle mae AD yn gweld yr aderyn hwn yn aml.

Dyma'r hen jaen (chwith) sydd yn rhoi i'r groesfan llamu hon dros yr afon Gwyrfaei ei enw Llyn Tchaen yn ôl Arthur Davies, Plas Glanrafon, Waunfawr. Roedd y gadwyn yn rhan o rhyw system ganllaw dros y gulfan groesi. Byddai'n dda cael mwy o wybodaeth gan bobl y fro.

DB



Aberogwen Yn dilyn y llun gwych o las y dorlan a dynnodd Alun Williams yn **Aberogwen** (clawr y rhifyn diwethaf) dyma dderbyn copi o'r llythyr hwn gan yr Athro David Thorne Gymdeithas Bd Natur Gogledd Cymru. "Mae amryw o'n haelodau yn gyson mwynhau ymweld â safleoedd sydd dan ofal Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi'r disgrifiad o weledigaeth yr ymddiriedolaeth a roir ar y wefan ac yn eich llenyddiaeth ynghyd â'r dyfodol: cais i ddiogelu ein treftadaeth amgylcheddol gyfoethog ar gyfer y cenedlaethau sydd i ddod. Dyma'n union a ddisgwyliid mewn cymdeithas wâr a chan gorff cyfrifol; dim mwy a dim llai. Siom, sut bynnag, oedd gweld eich bod yn amharod i roi'r un parch i'r enwau lleoedd sy'n dynodi'r safleoedd ac yn aml yn ddisgrifiad ohonynt. Mae enwau lleoedd yn gymaint rhan o'r

treftadaeth a'r cynefin amgylcheddol â'r cynefinoedd eu hunain. Gofid inni yng Nghymdeithas Enwau Lleoedd Cymru yw bod corff sy'n gwneud gwaith clodwiw ym maes cadwraeth yn ymddangos fel petaent yn awyddus i ddiddymu enw lle. 'Aberogwen' yw'r enw dan sylw ac fe'i cynrychiolir gan 'Spinnies' ar y byrddau gwybodaeth a welwyd. Tybed a fedrech egluro sut y mae hyn wedi digwydd a datgan beth yn union yw polisi Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru parthed enwi safleoedd. Tynnwyd y lluniau a atodaf lai na phythefnos yn ôl. Yn bur David Thorne Yr Athro David Thorne Cadeirydd Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Eira 1978

Diolch i Don McKewon am gael defnyddio'r llun yma, o dudalen Facebook " Crosville Buses". Yn ôl Don tua 1978/79 tynnwyd y llun. Mae hwn ger Greenbank Carmel, ar y ffordd i Garmel o'r Groeslon. Mae'r llun yn profi ei fod ar ôl 1976 oherwydd rhif cofrestru'r bws (llythyren P ar y diwedd). Eddie Owen oedd wrth y llyw.



Ifor Williams
O'r
Tywyddiadur:
gaeaf 1978-9
yr oeraf ers
1962-3 ond
yn wahanol
yn un

nodwedd- sef bod parhad y barrug a'r eira wedi ei dorri gan nifer o gyfnodau byr ond pwysig o dywydd mwyn- felly llai o adar yn marw
O bosib mai canol mis Chwefror y flwyddyn honno tynnwyd y llun:

Chwefror 14, 1979 *Today is supposed by radio and press to be the coldest for 20 years (Drove to Wrexham [o Lundain]). Snow drifting in places and ploughs working, but roads generally clear. Compacted snow slippery.*

Peter Edwards

Bodorgan 15-18 Chwefror 1979: Crashio y car. Tywydd mawr eira ac yn rhewi cael vet at y fuwch colli y llô yr hogia adref or ysgol eira a rhew wythnos bythgofiadwy.

Gareth Rowlands

Roedd y cyfnod yn un hanesyddol.

Algeria: *On Feb. 18, 1979, low altitude areas of the Sahara desert recorded their first snowfall in living memory. Snow fell in spots in southern Algeria, where a half-hour snowstorm stopped traffic. Several Saharan mountain ranges, however, receive snow on a more regular basis.*

en.wikipedia.org/wiki/Sahara

Ar Asgwrn y Graig



Blog Pôl Williams, Blaenau

Ffestinog: a medde fo amdano ei hun yn y blog: Garddwr drama; yn brwydro'n aflwyddianus efo chwyn, malwod, llygod, adar, a glaw Stiniog. Weithiau hefyd yn mentro cyboli efo rhandir carregog, di-bridd, a gwlyb... Jac of ôl traed; meistr ar ddim byd na

neb. Snob coffi a breuddwydiwr. Yn edrych ymlaen am haf rywbyrd cyn yr oes ia nesa'. Plîs.

Ac mae P yn wylaidd iawn hefyd

Gol

Gwas neidr crwydrol

Dyma'r ail gofnod erioed o hwn yng ngogledd Cymru, (ac fel y cyntaf ar y 21 Ebrill 2011), ar Ynys Enlli, gan Steve and Marion Holmes ym Mhwll y Nant ar y 1 Tachwedd 2015.

Anax (Hemianax) ephippiger

gwas neidr crwydrol eg gweision neidr crwydrol

Vagrant Emperor

Gweision Neidr. Cymdeithas Edward Llwyd 2009

Mwy am arferion bwya'r titwod

Dyma rhywbeth difyr ddaeth i'r fei o hen rifyn y cylchgrawn Britis Birds

DURING the hard weather in February, 1947, my wife and I found a small cache of peanuts, preserved in the house since 1939, when we had been in the habit of stringing these together and hanging them up for the tits. On February 12th, therefore, I hung up a string of 21 peanuts by the house where I was living, in Buckinghamshire. The string was hung up from the same nail and at the same height as scraps of meat and bones, etc., which had been constantly visited by all three species. To our surprise none of these nuts was opened, or even pecked, by the morning of February 18th, although tits were often seen to visit the string and perch on it. During the seven years since we had last hung up peanuts a new generation of tits had grown up that was as ignorant of peanuts as, until the other day, the ordinary English child was ignorant of bananas. It was obviously going to be of some interest to try to discover how soon and by what means the tits would learn to open the peanuts.By February 18th, these nuts were still untouched....


Tits and Peanuts EJM Buxton British Birds Cyf. XLI



Casgliad yr erthygl yw bod hyn yn dangos mai ymddygiad wedi ei ddysgu gan ditwod oedd agor cnau mwnci cyfain wedi eu plethu ar gortyn (erbyn hyn rydym yn eu prynu wedi eu dad-blisgo- gweler llun Alun Williams o ddelor y cnau yn estyn ato, ar y chwith). Collodd y titwod yr arfer o ddad-blisgo

erbyn 1947 oherwydd y rhyfel, a chnau mwnci ar y pryd mor ddiethr i ditwod ac yr oedd bananas i blant y cyfnod - ac am yr un rheswm (sef blocadau ar fewnforion gan yr Almaenwyr yn ystod y rhyfel.)

Gwas neidr mudol



Gwarchodfa Natur Rhuddlan, Hydref 2, 2015.

Cyfeirnod grid: SJ 019777

Llun: Eifion Griffiths

The so-called Migrant Hawker (Aeshna mixta) first appeared as a migrant species in southern and eastern England in the 20th Century where it soon became a common resident. It began to spread north and north-westwards as a result, it is thought, of a warming climate. It didn't get recorded in North Wales until the late 1990s when it rapidly spread across the region as a breeding species in many suitable lowland ponds and lakes. Therefore the name Migrant Hawker dates from a time when it wasn't even recorded from North Wales. **stori llawn yma** Allan Brandon

Oes yna eiriau Cymraeg i gân y **bras melyn**?



Hynny ydy oes yna 'drawsgrifiad' traddodiadol i'r gân, fel y fersiwn adnabyddus yn Saesneg: "**Little-bit-of-bread-and-no-cheese**"? 'Roeddwn i allan yn y Weriniaeth Tsiec unwaith, yn gwneud gwaith gwirfoddol mewn ardal wledig lle oedd y gân ym mhobman; pan glywodd un o'm cydweithwyr bod o'n deud "**Little-bit-of-bread-and-no-cheese**" yn Saesneg, fe wnaeth hi ddechrau chwerthin... Wrth i mi ofyn pam, esboniodd hi fod y fersiwn Tsiec yn mynd: "Rwy'ti'n wladwr, a rwy'ti'n mynd i farw!" (diddorol i mi bod y fersiynau yma yn debygol o gyfeirio at dlodi / newyn mewn ardaloedd amaethyddol, serch bod y deryn Tsiecaidd yn gwrthod dangos lot o gyd-deimlad!) Gan bod y sŵn mor gofiadwy a chymeriadol, 'dwi'n siŵr fod 'na fersiynau mewn sawl iaith – mi fasa'n diddorol ceisio casglu nhw, ac os bosib eu gwreiddiau hefyd, fel sleisen o hanes diwylliant gwledig. Efallai adar eraill hefyd – mae sŵn y soffliar ("whet-my-lips!", neu "whip-me-Dick!") yn un, ac rydw i'n cofio fersiwn o sŵn yr aderyn drycin Manaw o fy amser ar Ynys Enlli, ond tydi o ddim yn addas i gynulleidfa barchus... Wel ddarlennwyr, oes yna 'drawsgrifiad' traddodiadol i'r gân.... (C'mon Ben, be di fersiwn sw'n yr aderyn drycin? Dim dyna fydd y peth anwedus cyntaf i fynd i Llên Natur!)

Torri tywyrch yn Nhalsarnau



Years ago, beyond the fenced area, on Crown Land, an industry was set up which in its own way put the name of Talsarnau on the map, so to speak. A small industry that Bob Owen, Croesor would have loved to include in his book about small local industries – "Y Diwydiannau Coll" (The Lost Industries). It was not to be however, since The Turf Cutting industry came to be after Bob Owen published his book. The life-span of this small industry was short lived – between 1953 and 1962 but was important in its own way during that period. The company that established itself on the estuary was that of Maxwell M. Heart – London Ltd., from Reading in Berkshire, - a company originally from Edinburgh in Scotland.

Gwefan Gymunedol Talsarnau Mwy yma

Mae yna ddiwydiant o hyd ar y Glastraeth, Talsarnau yn ôl y son, a hwnnw yn un lleol hefyd, sef diwydiant cig oen wedi ei fagu ar borfa hallt. Mae'r blas yn arbennig medde nhw. A chan mai tyfiant "lawnt" naturiol o wellt y morfa *Puccinellia maritima* sydd ar y Glastraeth, mae'n syndod bod y tywyrch wedi bod yn hyfyw yn eu cynefin newydd ym mherfeddion Lloegr

Digwyddiad hanesyddol (na, go iawn rwan)

Dyma graff (de) yn dangos bod y lefelau carbon deïocsid yn yr atmosffer bellach ar drothwy'r 400 rhan per milwn, lefel na chyrhaeddwyd erioed yn y cyfnod y bu dyn ar y ddaear, ac mae'n rhaid mynd yn ôl i amser daearegol i weld lefelau o'r fath. Dydi "unwaith yn y pedwar amser" ddim ynddi!

Gol.

Statws y parot gwych

Mae'r superb parrot (*Polytelis swainsonii*) yn cael ei restru fel "**threatened**" yn Victoria ac "**endangered**" yn New South Wales a Canberra. Mae cael gwared a'r hen goed, gyda'u pantiau nythu, ar gyfer pori a choed tân wedi eu hamddifadu o lawer o'u safleoedd nythu. Mae rhannau gogleddol Canberra ar gyrion eu tiriogaeth. Pan ehangodd y ddinas tua'r gogledd, cafodd bron i 1,400 o erwau eu torri o un faestref i achub coed nythu y parotiaid. Nawr mae'r adar prydfarth hyn yn gyffredin mewn rhai ardaloedd yn Canberra, ac yn enwedig o amgylch Stadiwm Canberra, y maes rygbi mwyaf yn Canberra.



Enwi gwyfyn ar occiwn

Y cyhoedd yn cael cyfle i enwi gwyfyn ar occiwn. Mwy yma

